

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 5 Hydref 2020 am 7:00p.m trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape, Mike van der Eijk a Heather Williams.

100. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

101. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

102. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020 yn gywir.*

103. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

104. ADBORTH YNGHYLCH Y CYNNIG SIED TRWSIO A RHANNU

Hysbysodd y Cyngorydd Anne Roberts y cyfarfod fod perchnogion busnes sy'n byw yn Rhuthun a oedd wedi gweld cyfarfod y Cyngor llawn yn cael ei ffrydio'n fyw ar Facebook a'r trafodaethau ynghylch y cynnig hwn. Roeddynt yn bryderus y byddai'r cynllun yn cystadlu yn erbyn busnesau wedi'u sefydlu. Dywedodd y Cyngorydd Mike van der Eijk fod egwyddorion y cynllun yn ymddangos yn gadarn, ond roedd wedi gofyn am ragor o dystiolaeth ynghylch effaith y cynllun yn Nyfnait ar y gymuned leol a busnesau lleol.

PENDERFYNWYD: *nodi'r adborth.*

105. ADLEOLI BASGEDI CROG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adleoli'r chwe basged llai o faint yn Sgwâr Sant Pedr er mwyn lleihau'r pwysau ar y colofnau goleuadau, yn unol â chais Cyngor Sir Ddinbych. Awgrymodd yr aelodau nifer o leoliadau a chynigiodd y Maer fynd am dro o gwmpas y dref i chwilio am leoliadau addas ac adrodd yn ôl i'r Clerc.

PENDERFYNWYD: *derbyn cynnig y Maer a threfnu adleoli'r basgedi crog yr un diwrnod â thynnu'r blodau o'r basgedi crog.*

106. MAES PARCIO HEOL Y PARC

Cyfeiriodd yr aelodau at y cynwysyddion ailgylchu'n gorlifo yn y maes parcio ac awgrymwyd ffyrdd i wella'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y pryderon am yr ymddangosiad blêr o gwmpas y cynwysyddion ailgylchy yn y maes parcio.*

107. SBWRIEL A CHWYN AR STRYD CLWYD

Hysbyswyd yr aelodau y derbyniwyd cwynion am y sbwriel, bonion sigarets a chwyn ar hyd y palmentydd yn Stryd Clwyd. Roedd yr aelodau'n ymwybodol fod y sefyllfa Covid-19 wedi cyfrannu at agweddau o hyn, a gofynnwyd am anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych yn tynnu sylw at y cwynion gan nifer o drigolion.

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Clerc yn anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych yn tynnu sylw at y cwynion gan drigolion.*

108. COEDEN Y LLWYBR CELF

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd yr adroddiad ynghylch y goeden Llwybr Celf nesaf at yr arosfan bws ger Neuadd y Sir ar Ffordd y Farchnad a oedd wedi marw hyd yma.

PENDERFYNWYD: *atgoffa'r arbenigwr coed ynghylch y cais i archwilio'r goeden a darparu cyngor proffesiynol.*

109. PRIS COEDEN NADOLIG

Hysbysodd y Clerc nad oedd wedi derbyn prisiau gan unrhyw un o'r tri chwmni y cysylltwyd gyda nhw.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda'r cwmnïau eto a gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.*

110. PRIS GOLEUADAU AR Y GOEDEN NADOLIG

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod dau o'r tri chwmni y cysylltwyd gyda nhw am ddyfynbris wedi ymateb, gyda KMT Electrical wedi roi dyfynbris o £965.00 + TAW a Kollectrics wedi cyflwyno dyfynbris o £1,400.00 + TAW.

PENDERFYNWYD: *derbyn y dyfynbris a ddarparwyd gan KMT Electrical, sef £965.00 + TAW.*

111. PLANWYR DROS DRO

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cais gan Gyngor Sir Ddinbych i drefnu planhigion addas ar gyfer y 24 o blanwyd i'w gosod fel rhan o'r system draffig un ffordd dros dro yng nghanol tref Rhuthun.

Roedd yr aelodau yn dymuno cael planhigion hawdd i'w cynnal a'u cadw, lliwgar a phersawrus, ac awgrymwyd planhigion lafant a rhosmari bob yn ail blanwr.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda Phlanhigion Glyndwr Plants a Seven Oaks Garden Centre am brisiau i gyflenwi planhigion ar gyfer y planwyr.*

112. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 2 Tachwedd 2020 am 7pm.*